| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **18 Mawrth, 2014** |
| **PWNC** | **Cyfweliadau Datblygu Personol** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf ar drefniadau'r Cyngor** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Bydd y pwyllgor yn ymwybodol bod yn rhaid i'r Cyngor i gynnig trefn lle mae aelodau yn cael cynnig cyfweliad datblygu personol. Mae Mesur Llywodraeth Leol Cymru, 2011 yn mynnu bod pob cyngor yn cynnig proses i aelodau asesu eu hanghenion datblygu.

2. Mae'r pwyllgor wedi trafod hyn o'r blaen ac, ar gais y pwyllgor, ymwelwyd â'r Fforymau Ardal i gyd i'w hysbysu o hyn i ganfod lefel y diddordeb sydd ymysg aelodau mewn trefn o'r fath. Cafwyd cyfle i esbonio mai nid trefn asesu perfformiad aelod fyddai'r drefn ar gyfer aelod sydd y tu allan i'r Cabinet ond y cyfle am drafodaeth gwbl gyfrinachol ar anghenion datblygu. Roedd yr ymateb yn amrywio gyda rhai yn gweld manteision i drefn o'r fath ac eraill ddim.

3. Mae'r sefyllfa gyda'r Cabinet yn wahanol gan y bydd trefniant ar wahân ar gyfer aelodau Cabinet ac mae hyn yn debygol o gynnwys asesiad o'u perfformiad.

4. Er mwyn i aelodau gael y cyfle i drafod eu datblygiad personol, mae trefniadau wedi eu gwneud bellach i bump o uwch swyddogion y Cyngor baratoi ar gyfer cynnal cyfweliadau ar gyfer unrhyw aelod sydd yn dymuno.

5. Y camau nesaf fydd:-

- Llunio templed y gellir ei ddefnyddio fel sail ar gyfer y cyfweliadau (mae copi o'r templed drafft ynghlwm fel Atodiad 1)
- Anfon llythyr at bob aelod yn eu hatgoffa o'r cynnig i gynnal cyfweliad, yn cynnwys y templed a nodwyd yn uchod gan ofyn i'r aelodau gadarnhau trwy e-bost neu alwad ffon os ydynt am gael cyfweliad o'r fath
- Ar gyfer yr aelodau sydd yn ateb yn gadarnhaol, dosbarthu llythyr yn cadarnhau lleoliad cyfweliad, ac yn amgáu y swydd-ddisgrifiadau aelod sydd yn berthnasol iddynt
- Aelodau yn cael y cyfle i lenwi'r templed os ydynt yn dymuno neu ei ddefnyddio fel nodyn briffio.
- Cyfweliad yn digwydd (cyn diwedd Medi) a chytundeb ar feysydd datblygu a dysgu
- Cyfarfod â'r anghenion hynny o fewn y canllawiau sydd eisoes wedi ei gytuno

6. Gwahoddir sylwadau'r pwyllgor ar y trefniadau arfaethedig hyn.

ATODIAD 1

**<u>Paratoi ar gyfer cyfweliad adolygu datblygiad personol</u>**

**Mae'r ffurflen hon yn cynnig strwythur posib ar gyfer y cyfweliad. Medrwch ei ddefnyddio fel fframwaith i chi feddwl ymlaen llaw neu, os ydych yn dymuno, medrwch ei lenwi a dod ag e i'r cyfarfod.**

**Mae'r ffurflen yn gyfrinachol i chi a'r sawl fydd yn eich cyfweld ar wahân i'r dudalen olaf sydd i'w defnyddio gan swyddogion cynorthwyo'r cynghorwyr i baratoi'ch cynllun datblygu personol a blaenoriaethu gweithgareddau ar gyfer rhaglen hyfforddi'r awdurdod.**

1. **Beth yw fy rolau a'm cyfrifoldebau ar hyn o bryd?** (Er enghraifft, cabinet y cyngor, aelod o bwyllgor trosolwg a chraffu, cadeirydd, aelod o bwyllgor statudol megis cynllunio neu drwyddedu, cynrychioli'ch ward, arwain y gymuned.)

**2. Pa orchwylion mae rhaid imi eu cyflawni eleni? Beth rwy'n bwriadu ei wneud? Erbyn pryd?**

**3. Beth mae angen imi ei wybod a gallu ei wneud i gyflawni fy rôl a gwireddu fy uchelgeisiau?** (Gall y disgrifiad o'ch rôl, manylion eich rôl a fframwaith datblygu'r cynghorwyr fod o gymorth yma.)

**4. Ym mha agweddau ar fy rôl rwy'n hyderus?**

**5. Ble rwy'n llai hyderus?**

**6. Beth allai fy rhwystro i rhag cyflawni fy rôl?** (Ystyriwch unrhyw faterion personol, cyfundrefnol neu wleidyddol allai fod yn feini tramgwydd.)

**7. Pa ddysgu a datblygu rwyf i wedi'u gwneud eleni?**

**8. Beth rwyf i wedi'i ddysgu a'i gyflawni o ganlyniad i hynny?**

**9. Pa ddysgu a datblygu ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol?** (Yn ôl y tabl isod.)

| **Dyma'r meysydd yr hoffwn i eu datblygu:** | **Y datblygu sydd orau gyda fi** (e.e. ymweld ag awdurdodau eraill, cwrdd â chymheiriaid, gweithdai, e-ddysgu). |
|---|---|
| Medrau (e.e. rheoli cyfarfodydd, dulliau holi, trin a thrafod y cyfryngau). | |
| Gwybodaeth (e.e. côd ymddwyn, proses y cynllunio, cydraddoldeb, polisïau lleol). | |

**Paratoi cynllun datblygu a rhaglen hyfforddi**

| Maes i'w ddatblygu | Sut | Blaenoriaeth |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |